



Bwletin i Rieni - Gorffennaf 2014

Dyddiadau

Pwysig

18.07.14

Yr ysgol yn cau am wyliau'r haf

14.08.14

Cyhoeddi

Canlyniadau

Arholiadau Lefel

A/AS

21.08.14

Cyhoeddi

Canlyniadau

Arholiadau TGAU

02.09.14

Ysgol ar agor

Cyflwyno Proffil Personol



Ddydd Mercher, 18fed o Fehefin, cynhaliwyd cyfarfod i gyflwyno Proffiliau Personol i ddisgyblion blwyddyn 11 ac 13 cyn iddynt sefyll eu harholiadau a gadael yr ysgol. Braff oedd croesawu Mr Iwan Hywel, Swyddog Gyrfaoedd fel ein gŵr gwadd. Mae'n draddodiad bellach ers blyneddoddi i'r disgyblion wisgo'u dillad gorau ar gyfer y cyfarfod – roedd pob un yn hynod o smart! Cafwyd Triawd lleisiol 'Cwsg Osian' gan Elin Cain, Sara Parry a Louise Jeffreys, unawd gitâr 'Dirt Wizard' gan Jack Peall ac unawd o Sioe Gerdd 'Almost There' gan Elin Cain allan o 'Princess and the Frog'.

Braff iawn oedd gweld y neuadd yn orlawn o rieni a ffrindiau. Cyflwynwyd anrhegion i'r athrawon dosbarth gan y disgyblion fel arwydd o'u gwerthfawrogiad. Diolch i bawb a gefnogodd y seremoni.

Staff

Bydd Mr Guto Wyn yn ein gadael ddiwedd y tymor, gan iddo gael ei benodi yn Ddirprwy Bennaeth Ysgol Glan y Môr, Pwllheli. Bu'n bennaeth cynorthwyol yma ers 5 mlynedd ac yn athro Mathemateg ers dros ddeg mlynedd, ond cafwyd cyfraniad arbennig ganddo mewn sawl maes arall yn yr ysgol – trefnu gweithgareddau awyr agored, teithiau sgŵo, gweithgareddau'r Urdd ac unrhyw weithgarwch arall sy'n hybu'r iaith Gymraeg. Dymunwn yn dda iawn iddo ar gyfer y dyfodol.

Gwyliau yn ystod y tymor ysgol

Mae ffigyrau presenoldeb yr ysgol wedi codi eleni i 94.4% - cynnydd o dros 4% mewn 4 blynedd. Gyda chefnogaeth rhieni a'r staff, mae'r ysgol wedi gweithio'n galed iawn i wella'r ffigyrau presenoldeb, ac mae gwobrau yn cael eu rhoi i'r dosbarth a'r unigolion gyda'r presenoldeb gorau. Un ffaith syfrdanol eleni yw fod 33 disgybl gyda phresenoldeb llawn o 100% - fel arfer llond llaw yn unig fydd wedi bod yn bresennol bob diwrnod. Un peth sy'n effeithio ar y ffigyrau presenoldeb yw gwyliau yn ystod y tymor ysgol.

Fel pob ysgol arall yng Ngwynedd, mae'r llywodraethwyr wedi penderfynu caniatáu hyd at 5 diwrnod yn unig o wyliau teuluol ym mlyneddoddi 7-9, ond **dim un diwrnod** ym mlyneddoddi 10 ac 11. Gofynnir am gefnogaeth rhieni i beidio trefnu gwyliau teuluol yn ystod y tymor ysgol.

Eisteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau i'r criw o flwyddyn 9 a enillodd y gystadleuaeth Ymgom yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn y Bala sef Martha Glain, Owain Morgan, Buddug Roberts a Sophie Williams.



Bu nifer o'n disgyblion hefyd yn llwyddiannus yng nghystadlaethau gwaith cartref yr Urdd:

Beca Nia – 1af Rhyddiaith - blwyddyn 7
Buddug Roberts – 1af Rhyddiaith - blwyddyn 9
Hannah Cook – 2il Rhyddiaith i Ddysgwyr
Martha Glain – 1af Gwaith Creadigol 3D B9
Martha Glain – 2il Gwaith Lluniadu 2D B9

Da iawn chi!

Cwrs Sgiliau Bywyd

Mae criw o ddisgyblion blwyddyn 11 yn gwneud cwrs sgiliau byw ac wedi bod yn brysur iawn yn chwynnu a chasglu sbwriel a thacluso yn Llys Dafydd gyda Mrs Glenda Parry yn ddiweddar fel rhan o'u cwrs ac fel rhan o gynllun Cadwch Gymru'n Daclus.



Cystadleuaeth 'Pentref a Foddwyd' – Llyfrgell Gwynedd

Llongyfarchiadau i Martha Evans, blwyddyn 9 am ddod yn drydydd yng nghystadleuaeth 'Pentref a Foddwyd', Llyfrgell Gwynedd. Roedd rhaid iddi gyfansoddi cerdd yn seiliedig ar hanes trist boddi pentref Capel Celyn. Y Prifardd Twm Morys oedd y beirniad a bydd cerdd Martha i'w gweld ar wefan Llyfrgell Gwynedd yn fuan. Llongyfarchiadau mawr iddi!

Cystadleuaeth Gohebwr Ifanc, Cadwch Gymru'n Daclus

Llongyfarchiadau i Ella, Meilir, Beca a Dafydd o flwyddyn 7 am ennill gwobr a chydnyddiaeth gan y beirniad – y darlennydd newyddion Huw Edwards yng nghystadleuaeth Gohebwr Ifanc, Cadwch Gymru'n Daclus. Cynhyrchodd y criw fideo yn hysbysebu'r ardal yn ogystal â thynnu sylw at y pethau sy'n digwydd er mwyn cadw'r pentref a'r ardal yn daclus. Mae'r pedwar wedi derbyn gwahoddiad i fynd i dderbyn eu gwobr yn y Sioe Fawr yn Llanelwedd, fis Gorffennaf. Da iawn chi! Mae'n bosib gweld y fideo ar wefan Youtube yr ysgol sef www.youtube.com/ysgoldyffrynogwen

Blwyddyn 12 – Taith Llundain



Ar y 30ain o Fehefin tan y 1af o Orffennaf teithiodd criw o fyfyrwyr BAC Bl. 12 i Lundain. Dros gyfnod o ddau ddiwrnod, cawsant gyfle i gael blas iawn ar Lundain, gan weld 'Changing of the Guards', Palas Buckingham, Big Ben, London Eye, Stryd Downing a Sgwâr Trafalgar. Roedd 'China Town' a Sgwâr Leicester yn ardaloedd bywiog a thrawiadol a'r Amgueddfa Brydeinig yn ddiddorol dros ben. Cafodd y criw eu tywys o amgylch San Steffan a chyfle i gael sgwrs arbennig gyda Hywel Williams, A.S. Wedi diwrnod o grwydro, bu cyfle i ymlacio yn y theatr gyda'r hwyr i wyllo'r sioe gerdd 'Mamma Mia'.



Gwisg Swydddogol yr Ysgol

Genethod:

- Crys chwys swydddogol yr ysgol
- Crys polo glas golau gyda logo'r ysgol
- Trowsus plaen du (DIM Jîns, trowsus trac wisg na leggings) neu sgert ddu o hyd addas - sef dim llawer uwch na'r pen-glin
- Esgidiau **sawdl isel** du plaen.

Chwaraeon – Genethod

- Esgidiau chwaraeon
- Siorts –glas tywyll
- Crys-T gwyn
- Siwt redeg – Du neu Las tywyll
- Sanau glas tywyll a phadiau

Bechgyn

- Crys chwys swydddogol yr ysgol
- Crys polo gwyn gyda logo'r ysgol
- Trowsus plaen du (DIM Jîns na throwsus trac wisg)
- Esgidiau du plaen.

Chwaraeon – Bechgyn

- Esgidiau pêl-droed / rygbi ac Esgidiau Chwaraeon
- Siorts Du
- Crys-T gwyn
- Crys Rygbi glas yr ysgol
- Sanau pen-glin du a phadiau pêl-droed

Nid oes caniatâd i ddisgyblion wisgo tlysau heblaw am: oriawr, un pâr o 'studs' plaen yn y clustiau, un fodrwy blaen ar fys. Ni chaniateir unrhyw emwaith arall o unrhyw fath fel studs ar unrhyw ran arall o'r wyneb. Ni chaniateir gwisgo capiau, colur na phaent ewinedd ac ni chaniateir steil gwallt eithafol o ran lliw, hyd neuarddull.

Diwrnod Mabolgampau Dyffryn Ogwen

Cynhaliwyd mabolgampau'r ysgol eleni ar gae yr ysgol, Mehefin 13eg a chafwyd diwrnod da o gystadlu yn y tywydd braf. Tryfan oedd y tŷ buddugol eleni. Aeth y disgyblion buddugol ymlaen i gystadlu yng nghystadleuaeth Arfon yn ddiweddarach.



Cynllun Banc Bwyd Caernarfon

Mae'r ysgol yn rhan o gynllun Banc Bwyd Caernarfon – Bwyd ar frys i bobl leol mewn argyfwng. Mae talebau “vouchers” ar gael i deuluoedd anghenus yr ardal – digon o fwyd i deulu am dri diwrnod. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â'r ysgol 01286 600291.

Clwb Gwaith Cartref

Mae'r Clwb Gwaith Cartref ar agor o ddydd Llun i ddydd Iau o 3:20 tan 4:20. Mae hyn yn gyfle ardderchog i ddisgyblion gael cymorth gyda'u gwaith ysgol.

Mae croeso i ddisgyblion o flynyddoedd 7 i 11 fynychu'r Clwb.



Ymweliad Blwyddyn 6

Bu'r 65 disgybl ynghyd â rhai disgyblion o du allan i'r dalgylch sy'n dechrau ym mlwyddyn 7 ym mis Medi, yma am ddiwrnod yn cael cyfle i flasau gwersi Addysg Grefyddol, Technoleg ac Addysg Gorfforol a chael cyfnod yn eu dosbarthiadau cofrestru newydd. Edrychwn ymlaen at eu croesawu!



Esgidiau Ysgol

Mae'r rheolau ynghylch gwisg ysgol yn datgan yn glir y dylai'r holl ddisgyblion wisgo esgidiau PLAEN DU. Ni chaniateir esgidiau sydd â streipiau, logos, neu unrhyw rannau gwyn neu liw arall. Gofynnir am eich cydweithrediad i sicrhau cysondeb ynghylch y mater hwn os gwelwch yn dda.

ADDAS



ANADDAS





Sialens Mathemateg Prifysgol 'Edgehill' Lerpwl

Bu Tomos Griffith, Tomos Gwyn Jones, Ieuan Hughes a Lewis Blues yn cymryd rhan mewn sialens mathemateg yn ddiweddar. Aeth y pedwar trwodd i'r rownd derfynol lle bu'n rhaid iddynt roi cyflwyniad o'u datrysiad i'r broblem "Skip to it" i banel o feirniaid. Gwnaeth y bechgyn yn arbennig o dda i gyrraedd y rownd yma allan o 300 o gystadleuwyr. Ni chafwyd llwyddiant ar y diwrnod ond cafwyd ddiwrnod braf a threulio amser ar gampws y Brifysgol. Da iawn chi!



Cinio Ysgol am Ddim/Grant Gwisg Ysgol

Rydym yn awyddus i sicrhau bod rhieni'n gallu hawlio'r cymorth ariannol sydd ar gael iddynt, ee mae grantiau ar gael gan y Cyngor Sir i ddarparu cinio am ddim i rai disgyblion ac i gynorthwyo rhieni i brynu gwisg ysgol.

Cofiwch fod angen adnewyddu eich cais yn flynyddol. Os na fyddwch yn gwneud cais cyn diwedd y tymor, bydd disgwyl i chi dalu am wisg ysgol/cinio eich plentyn o ddechrau'r tymor.

Cysylltwch gyda'r Adran Budd-daliadau 01286 682689.

Pris Cinio Ysgol 2014/2015

PRYD LLAWN (CWRS CYNTAF A PHWDIN)	-£2.20
CWRS CYNTAF	-£1.75
PECYN (RÔL A DIOD, NEU GACEN)	-£1.75
PWDIN	-£1.40
POWLEN FFRWYTH	-£1.40
POWLEN SALAD	-£1.70
TATEN TRWY GRWYN	-£1.75
BAP WEDI LLENWI	-£1.70
RÔL WEDI LLENWI	-£1.35
BRECHDAN	-£1.10
FAJTAS	-£1.70
PASTA GYDA SAWS	-£1.70
PANINIS	-£1.60
CACEN / BISGED	-£0.75
YSGYTLAETH	-£0.75
POTEL DWR	-£0.60
TOST	-£0.25
STAFF	
CWRS CYNTAF	-£2.10
PRYD LLAWN	- £2.60

Osian Capten Cymru

Llongyfarchiadau i Osian Hughes o flwyddyn 7 am ei lwyddiant ar y meysydd pêl-droed. Yn ddiweddar bu Osian yn gapten ar dîm dan 12 Cymru fu'n chwarae yn Ewood Park, maes yr enwog Blackburn Rovers. Fe welwch Osian yn y llun yn sefyll yn falch iawn ar gyfer yr anthem genedlaethol.



Ymweliad Jenna Downing

Dyma lun o ddisgyblion TGAU addysg gorfforol blwyddyn 9 gyda Jenna Downing o gynllun 'sky sports living for sport'. Cawsant hyfforddiant sglefrolio a gweithdy am sut i lwyddo ym maes cynllunio a datblygu chwaraeon. Yn dilyn hyn bu'r disgyblion yma yn gyfrifol am gynllunio a chynnal mabolgampau Ysgol Penybryn.



Athletau



Llongyfarchiadau i Aled Owsianka am ennill y naid uchel yng nghystadleuaeth atletau Eryri. Bydd yn cynrychioli tîm Eryri ym mhencampwriaeth Cymru yng Nghaerdydd. Pob lwc Aled!

Carfan Criced Cymru

Llongyfarchiadau i Mathew Buchanan blwyddyn 8 ar gael ei ddewis unwaith eto i garfan criced Cymru dan 13.



Cludo Baton Gemau'r Gymanwlad – Glasgow 2014



Llongyfarchiadau i Mari Davies ar gael ei dewis i gludo baton Gemau'r Gymanwlad ym Mhlas Menai. Bu hefyd yn cario fflam y Gemau Olympaidd dros Bont Menai ddwy flynedd yn ôl.

Dyma lun Mari gyda Alex Jones o'r 'One Show' oedd hefyd yn cario'r baton.